

---

# **ADRODDIAD BLYNYDDOL A DATGANIADAU ARIANNOL am y flwyddyn yn gorffen 31 Rhagfyr 2022**

---

**EISTEDDFOD**

Sefydliad Corfforedig Elusennol  
Rhif elusen: 1155539  
[www.eisteddfod.cymru](http://www.eisteddfod.cymru)

### CYNNWYS

---

#### Adroddiad yr Ymddiriedolwyr:

Amcanion a Gweithgareddau'r elusen	2
Adolygiad Ariannol	4
Gwybodaeth Gyfreithiol a Gweinyddol	7
Strwythur, Llywodraethu a Rheoli	8

Adroddiad yr Archwilwyr Annibynnol	12
------------------------------------	----

Datganiad o'r Gweithgareddau Ariannol	15
---------------------------------------	----

Mantolen	16
----------	----

Datganiad o'r Llif Arian	17
--------------------------	----

Nodiadau i'r datganiadau ariannol	18
-----------------------------------	----

#### **ATODIADAU**

Nid yw'r wybodaeth a gynhwysir yn yr atodiadau yn rhan o'r datganiadau ariannol archwiliedig:

Atodiad A – Swyddogion y Llys a'r Cyngor	29
--	----

### ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR

---

#### Adroddiad yr ymddiriedolwyr am y flwyddyn yn gorffen 31 Rhagfyr 2022

Mae'r ymddiriedolwyr yn cyflwyno eu hadroddiad blynyddol a datganiadau ariannol yr elusen am y flwyddyn yn gorffen 31 Rhagfyr 2022. Paratowyd y datganiadau ariannol yn unol â'r polisiau cyfrifyddu a nodir yn nodyn 1 i'r cyfrifon ac yn cydymffurfio â chyfansoddiad yr elusen, Deddf Elusennau 2011, Datganiad o Arferion a Argymhellwyd i Elusennau (SORP) sy'n paratoi eu cyfrifon yn unol â'r Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y Deyrnas Gyfunol a Gweriniaeth Iwerddon (FRS102).

---

#### AMCANION A GWEITHGAREDDAU'R ELUSEN

---

Amcanion yr Eisteddfod, er budd y cyhoedd yng Nghymru a ledled y byd, yw:

- hyrwyddo addysg y cyhoedd yn nhreftadaeth a diwylliant Cymru, y gwyddorau a'r iaith Gymraeg; a hyrwyddo, cadw a diogelu treftadaeth a diwylliant Cymru a'r iaith Gymraeg, drwy unrhyw ddull a modd yr ystyrir yr ymddiriedolwyr yn dda yn cynnwys trwy gynnal gŵyl genedlaethol yn flynyddol, sef Eisteddfod Genedlaethol Cymru.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn gweithredu i gyflawni'r amcanion hyn trwy ddilyn yr ymrwymadau a ganlyn:

- Y Gymraeg yw iaith gweithgareddau'r Eisteddfod a'r Wyl. Tra'n parchu'r egwyddor hon, dylid sicrhau bod gwybodaeth ar gael i'r di-gymraeg, a gweithgareddau i'r rhai hynny sy'n dysgu'r Gymraeg.
- Bwriedir i'r Eisteddfod barhau i fod yn Wyl deithiol/symudol. Trwy weithio mewn partneriaeth â'r cymunedau lleol, Cymdeithas awdurdodau lleol Cymru a chyrff eraill, dylid ymdrechu i sicrhau bod yr ymweliadau'n gymorth i hyrwyddo adnewyddiad y cymunedau, a bod y budd economaidd, cymdeithasol a diwylliannol i'r ardaloedd hynny yn sylweddol a pharhaol.
- Bwriedir i'r Eisteddfod Genedlaethol ddathlu egni a chyfoesedd yr iaith Gymraeg, ardderchogrwydd diwylliant Cymru, a thraddodiadau gwerthfawr a drosglwyddwyd o genhedlaeth i genhedlaeth.
- Bwriedir i'r Eisteddfod barhau i fod yn Wyl gystadleuol yn ei hanfod. Dylid adolygu nifer a natur y cystadlaethau'n rheolaidd i sicrhau eu bod yn addas a pherthnasol i'r cyfnod.
- Bwriedir i'r Eisteddfod hefyd fod yn llwyfan i'r goreuon yn amrywiol agweddau'r diwylliant Cymreig a'r celfyddydau yng Nghymru, boed amatur neu broffesiynol.
- Rhaid sicrhau strwythur rheoli a threfnu effeithiol sy'n cyd-fynd â'r gofynion cyfreithiol ac ymarferol sy'n bodoli er mwyn sicrhau gweithredu amserol a diwastraff gan wneud y defnydd gorau o'r adnoddau. Dylai'r rheolaeth fod yn agored a thryloyw ac yn parchu egwyddorion sylfaenol priodoldeb a llywodraeth gorfforaethol yn gyffredinol.
- Dylid cydweithio gyda chyrff lleol a chenedlaethol (cyrff cyhoeddus, cyrff gwirfoddol a chwmnïau preifat) a chymunedau Cymru er mwyn sicrhau llwyddiant yr Wyl.
- Ni ddefnyddir eiddo'r Eisteddfod at ddibenion nad ydynt yn elusennol.

### AMCANION A GWEITHGAREDDAU'R ELUSEN

---

#### Budd cyhoeddus

Mae'r ymddiriedolwyr yn cadarnhau eu bod nhw wedi cydymffurfio â'r ddyletswydd yn adran 17 o Ddeddf Elusennau 2011 i roi sylw priodol i'r canllawiau budd cyhoeddus a gyhoeddir gan y Comisiwn Elusennol wrth benderfynu ar ein gweithgareddau.

Amcanion craidd yr Eisteddfod Genedlaethol yw hyrwyddo diwylliant Cymru a diogelu iaith, hanes a thraddodiadau Cymru mewn cymdeithas amrywiol fodern. Mae gŵyl flynyddol yn cael ei chynnal i ddathlu popeth Cymreig ac i ddatblygu diwylliant Cymru o fewn y brif ffrwd drwy:

- Annog pobl i ddefnyddio a dysgu'r iaith Gymraeg;
- Hyrwyddo diwylliant, bwyd, tirlun a threftadaeth Cymru sy'n adlewyrchu Cymru;
- Arddangos perfformwyr Cymreig i gynulleidfa ehangach;
- Darparu canolbwynt ar gyfer gweithgareddau cymdeithasol, economaidd a diwylliannol.

Mae'r ŵyl yn hyrwyddo a'n hybu'r defnydd o'r iaith Gymraeg, trwy arddangos talent o Gymru. Mae hyn yn cael ei gyflawni drwy ymglymu artistiaid, cerddorion, perfformwyr, busnesau, addysg a darparwyr cymdeithasol. Mae'r holl bobl leol a'r holl fusnesau lleol yn cael eu hannog i fynd ati i gymryd rhan, gan greu cyfuniad â blas Cymreig arbennig i adlewyrchu diwylliant, traddodiadau a gwerthoedd pobl Cymru.

Mae'r Eisteddfod Genedlaethol yn cyflawni ei hamcanion craidd trwy:

- Arddangos hunaniaeth ddiwylliannol unigryw a threftadaeth Cymru; annog pobl i ddathlu hanes a diwylliant Cymru;
- Feithrin a chynyddu'r defnydd o'r iaith Gymraeg ymysg pob grŵp oedran;
- Ddarparu cyfleoedd cyffrous i ysgolion a chymunedau trwy gydol Cymru i gymryd rhan ynddynt;
- Ddarparu cyfleoedd i'n hartistiaid Cymreig blaenllaw i arddangos eu talentau;
- Ddod yn hygyrch i gynulleidfa fwy eang o wahanol oedrannau, rhyw ac ethnigrwydd, trwy ddod â'r Eisteddfod i mewn i'r oes fodern;
- Hyrwyddo'r iaith Gymraeg ymysg busnesau yn y sector preifat;
- Gynyddu proffil Cymru ar lefel rhyngwladol;
- Gydlyniant cymunedol trwy weithredu a chymryd rhan yn wirfoddol yn lleol;
- Weithio gyda sefydliadau lleol i gryfhau Cymru a'i chymunedau;
- Godi proffil a phoblogrwydd canu corawl yng Nghymru;
- Arloesi gyda thechnoleg newydd e.e. y cyntaf yn y Byd i we-ddarlledu'n fyw yn y Gymraeg yn 2000, a'r rhaglen Gymraeg gyntaf ar gyfer yr iPhone yn 2010;
- Annog datblygiad addysgol;
- Gryfhau llwyfan Cymru;
- Gynyddu cystadleuaeth iach a gwaith tîm;
- Annog pobl i gyfrannu o gefndiroedd di-gymraeg;
- Adeiladu pontydd rhwng pobl o ethnigrwydd a chenhedloedd amrywiol.

### ADOLYGIAD ARIANNOL

---

Derbyniwyd cyfanswm o £7.018m o incwm i mewn yn ystod y flwyddyn i gymharu gyda £2.490m yn 2021 a gwariwyd cyfanswm o £6.216m (£1.696m yn 2021). Gan gynnwys hefyd y gostyngiad o £143,000 yng ngwerth y buddsoddiadau (enillion o £75,000 yn 2021), mae hyn yn gadael gweddill (cyn y cynnydd yng ngwerth y cynllun pensiwn) ar ddiwedd y flwyddyn o £659,000 (2021: Gweddill o £869,000).

Ar 31 Rhagfyr 2022 roedd yr asedau net yn £7.389m (£5.190m yn 2021).

#### Cronfeydd

Mae'r Eisteddfod yn cadw cronfeydd ariannol mewn nifer o gategoriâu:

**Cronfeydd Anghyfyngedig** - ar gael i'w defnyddio, yn ôl disgrisiwn yr ymddiriedolwyr, i unrhyw un o ddibenion elusennol yr Eisteddfod Genedlaethol.

**Cronfeydd Cyfyngedig** - arian a roddir i'w defnyddio ar gyfer pwrpas penodol, ac mae eu defnydd yn gyfyngedig i'r pwrpas hwnnw. Cyfanswm y gronfa ar ddiwedd 2022 oedd £261,000 (2021: £235,000).

**Cronfeydd Penodol** - yn cynrychioli incwm a dderbynnir ar gyfer Eisteddfodau'r dyfodol. Yn ystod y flwyddyn, derbyniwyd cyfanswm o £213,000 ar gyfer Eisteddfod Llŷn ac Eifionydd 2023. Yn ogystal rhyddhawyd swm o £872,000 yn ôl i'r cyfrifon mewn perthynas ag arian a godwyd ar gyfer Eisteddfod Ceredigion cyn 2022. Roedd cyfanswm y gronfa ar 31 Rhagfyr 2022 yn £412,000 (2021 - £1,002,000).

**Cronfeydd Gwaddol** - cronfeydd sydd i'w cadw er budd yr elusen fel Cronfa Cyfalaf. Cyfanswm y gronfa yma ar 31 Rhagfyr 2022 oedd £1.396m (£1.507m ar ddiwedd 2021).

**Cronfa Bensiwn** - Ar 31 Rhagfyr 2022 roedd gwarged yn y gronfa pensiwn o £2.490m (2021 - Gwarged o £950,000).

#### Polisi Cronfeydd wrth gefn

Mae'r cronfeydd wrth gefn yn cael eu cynnal ar gyfer unrhyw ddiffyg dros dro (e.e. colled mewn Eisteddfod benodol neu gynnydd anhagweladwy yn y gwariant) fel y gall yr elusen parhau i weithredu ar unrhyw adeg.

Oherwydd natur ansicr nifer o ffynonellau incwm a gwariant, fel y gronfa leol, grantiau, nawdd, gwerthiant tocynnau a chostau ychwanegol o ran tywydd drwg, mae'r ymddiriedolwyr wedi cytuno ar bolisi lle dylai'r cronfeydd anghyfyngedig fod yn werth 50% o leiaf o gyfanswm y gwariant (yn seiliedig ar gyfrifon eleni), sy'n cyfartalu i £3.1m mewn cronfeydd wrth gefn. Ar y lefel yma, teimlai'r ymddiriedolwyr y bydd yr elusen yn gallu parhau i weithredu mewn achos o ddiffyg sylweddol naill ai oherwydd amgylchiadau fel y pandemig Covid-19 neu fod un o wyliau'r Eisteddfod yn gwneud colled ariannol. Nid yw'r cronfeydd rhydd o £2.815m (2021: £1.496m) yn cyrraedd y nod ar hyn o bryd.

#### Arferion codi arian

Rydym yn ffodus ac yn hynod ddiolchgar am bob rhodd a chyfraniad ariannol, rhai a dderbynnir yn flynyddol ac eraill ar gyfer gwyliau penodol. Mae'r ymddiriedolwyr, gan gynnwys swyddogion y pwyllgorau cyllid ar draws Cymru, yn ymdrechu bob amser i sicrhau y safonau uchaf, llywodraethu da ac adolygiad parhaus mewn perthynas â'n gweithgareddau codi arian.

**Cronfeydd Lleol a Chyffredinol** - Mae'r mwyafrif o'r rhoddion a dderbyniwyd gan yr elusen yn cael eu derbyn trwy bwyllgorau apêl leol i godi arian i'r Eisteddfod sydd yn ymweld â'u hardal. Hwn yw gyfraniad dalgyrch yr Eisteddfod i'r gost o gynnal yr ŵyl ac yn arferol mae'r pwyllgorau apêl yn codi arian am gyfnod o ddwy i dair blynedd hyd at gynnal yr Eisteddfod. Mae'r derbyniadau yma'n cynnwys rhoddion gan unigolion i ddigwyddiadau codi arian cyffredinol.

### ADOLYGIAD ARIANNOL

---

Mae pob pwyllgor apêl newydd yn derbyn cyfarwyddiadau gweithredu gan yr elusen. Mae cynrychiolwyr o bob pwyllgor apêl yn cyfarfod yn rheolaidd i adrodd yn nôl i'r Pwyllgor Cyllid Canolog.

Mae swyddogion y pwyllgor cyllid hefyd yn sicrhau:

- Dim ymyrraeth afresymol ar breifatrwydd unigolyn;
- Dim ymagweddau parhaus at ddiben cyfreithloni neu gaffael arian neu eiddo arall ar ran yr elusen;
- Bod neb yn rhoi pwysau gormodol ar rywun i roi arian neu eiddo arall.

Yn ystod 2022, derbyniwyd £261,000 (2021: £48,000) ar gyfer y cronfeydd lleol a chyffredinol. Mae'r swm a godwyd yn flynyddol yn gallu amrywio gan ei fod yn dibynnu ar ba mor gyflym y mae pwyllgorau'r apêl yn codi arian.

Mae'r ffigur yma yn cynrychioli derbyn arian o £30,000 ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion 2022 a £213,000 ar gyfer Eisteddfod Llŷn ac Eifionydd 2023. Yn amlwg, oherwydd cyfyngiadau Covid-19 roedd y swm a gasglwyd yn ystod 2021 yn sylweddol llai.

Mae'r cyfrifon hefyd yn cynnwys incwm o £161,000 a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn am docynnau a nawdd gogyfer ag Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd 2023.

Cyfrifwyd am yr incwm yma trwy'r Cronfeydd Penodol.

Rhoddion trwy ewyllys – Derbyniwyd tair rhodd eleni, gwerth £100,000, lle mae cefnogwr yr Eisteddfod wedi dewis rhoi rhodd yn eu ewyllys (2021: un rhodd – gwerth £33,000).

Ymgyrchoedd eraill - Ymgyrmerir â phob marchnata uniongyrchol arall gan staff yr Eisteddfod i sicrhau nad yw'n afresymol ymwithiol na pharhaus. Gwneir cyswllt trwy farchnata uniongyrchol *mailchimp* ar gyfartaledd tua unwaith y mis. Mae'r holl ddeunydd marchnata yn cynnwys cyfarwyddiadau clir ar sut y gellir tynnu person oddi ar restrau postio.

Nid yw'r Eisteddfod yn defnyddio unrhyw gorff proffesiynol i godi arian. Ni fu unrhyw gwynion yn ystod y flwyddyn am weithgaredd codi arian yr elusen.

#### Polisi Buddsoddi

Mae'r Ymddiriedolwyr wedi penderfynu buddsoddi arian mewn portffolio risg canolig – cyfuniad o stoc y llywodraeth, cyfranddaliadau rhestredig ac unedau buddsoddi er mwyn cwrdd â gofynion am gynhyrchu incwm a thyfiant cyfalaf. Yr ymgynghorwyr buddsoddi annibynnol Brewin Dolphin sydd yn buddsoddi cronfeydd yr Eisteddfod ar ei rhan. Caiff y cronfeydd hyn eu hadolygu'n gyson.

Mae'r Ymddiriedolwyr wedi penderfynu na ddylid buddsoddi mewn cwmnïau sydd yn gysylltiedig â chynhyrchu neu ddsbarthu arfau a thybaco. Roedd gwerth y buddsoddiadau ar ddiwedd y flwyddyn yn £1,599,000 o gymharu â £1,749,000 ar 31 Rhagfyr 2021.

#### Gwirfoddolwyr

Mae'r elusen yn ddiolchgar iawn am gyfraniad eu gwirfoddolwyr sy'n gweithio'n ddi-dâl, o godi arian i stiwardio ar faes yr Eisteddfod. Nid ydym yn gallu rhoi gwerth ariannol ar yr holl waith yma ac felly, nid yw'n cael ei gynnwys yn y Datganiad o'r Gweithgareddau Ariannol.

### ADOLYGIAD ARIANNOL

---

#### Trafodion partïon cysylltiol

Nid oes unrhyw drafodion partïon cysylltiol yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Rhagfyr 2022 gan yr ymddiriedolwyr neu unrhyw aelod o'r Bwrdd Rheoli.

#### Rheoli risg

Mae'r Tîm Rheoli yn gyfrifol am adnabod a gwerthuso'r risgiau sylweddol sy'n berthnasol i'w meysydd busnes, ynghyd â chynllunio a gweithredu rheolaeth fewnol briodol. Asesir y risgiau hyn ar sail barhaus ac yn cofnodi risgiau materol yn y gofrestr risg.

Mae'r Panel Archwilio a'r Bwrdd Rheoli yn arolygu'r gofrestr risg o leiaf ddwywaith y flwyddyn i sicrhau bod y camau priodol yn bodoli i leihau'r risgiau hynny. Mae'r risgiau yn cynnwys parhad yr Eisteddfod, materion ariannol, Iechyd a Diogelwch, staffio a'r amgylchedd.

#### Rhagdybiaeth Busnes Byw

Mae'r Ymddiriedolwyr o'r farn bod yr Elusen mewn sefyllfa dda i reoli ei risgiau busnes trwy'r cyfnod hwn o ansicrwydd economaidd a bod disgwyliad rhesymol gan yr Eisteddfod bod yr adnoddau yn ddigonol i barhau i weithredu'n hyd y gellir rhagweld. Am y rhesymau hyn maent yn parhau i fabwysiadu sail busnes sy'n fyw wrth baratoi'r cyfrifon.

## Eisteddfod Genedlaethol Cymru

---

### GWYBODAETH GYFREITHIOL A GWEINYDDOL

---

Enw'r elusen:	Eisteddfod Genedlaethol Cymru
Cyfansoddiad:	Sefydliad Corfforedig Elusennol
Rhif yr elusen:	1155539
Swyddfa gofrestredig:	40 Parc Tŷ Glas Llanisien Caerdydd CF14 5DU
Bwrdd Rheoli ac Ymddiriedolwyr:	Ashok Ahir (Llywydd y Llys) Gethin Thomas (Cadeirydd y Cyngor) Heulwen Jones (Is-gadeirydd y Cyngor) Gwenno Williams (Trysorydd) Christine James (Gorsedd y Beirdd) Elin Jones (Cadeirydd Eisteddfod 2022) Michael Strain (Cadeirydd Eisteddfod 2023) Heledd Bebb Elin Haf Gruffydd Jones Gwerfyl Pierce Jones Trystan Lewis Deian Rhys Aled Walters Rhian Huws Williams
Ysgrifennydd	Llyr Roberts
Prif Weithredwr:	Betsan Moses
Archwilwyr:	Ashmole & Co. 3 Stryd y Farchnad Llandeilo SA19 6AH
Bancwyr:	HSBC 56 Heol y Frenhines Caerdydd CF10 9NA
Brocer Buddsoddiadau:	Brewin Dolphin 5 Sgwâr Callaghan Caerdydd CF10 5BT
Cyfreithwyr Mygedol:	Emyr Lewis Philip George Aled Walters



### STRWYTHUR, LLYWODRAETHU A RHEOLI

---

#### Cyfansoddiad

Mae Eisteddfod Genedlaethol Cymru wedi cofrestru fel Sefydliad Corfforedig Elusennol gyda'r Comisiwn Elusennau ar 29 Ionawr 2014. Trosglwyddwyd asedau a rhwymedigaethau *Eisteddfod Frenhinol Genedlaethol Cymru* (rhif elusen 219171) i'r Sefydliad Elusennol Corfforedig ar 1<sup>af</sup> Ionawr 2015. Mae'r elusen newydd yma'n weithredol o'r dyddiad hwn.

#### Y Llys

Mae'r Llys yn cynnwys holl aelodau'r Elusen, gyda holl hawliau arferol i'w gweithredu trwy Gyfarfodydd Cyffredinol. Mae'r hawliau hyn yn cynnwys (heb gyfyngiad) yr hawl i benodi ac i ddiswyddo Swyddogion, Ymddiriedolwyr, ac aelodau'r Cyngor, yn unol â'r Cyfansoddiad, Rheolau Sefydlog yr elusen ac yn unol â Deddf Elusennau 2011. Mae'r Llys, mewn cyfarfodydd cyffredinol, yn ystyried ac yna'n derbyn neu wrthod adroddiadau'r Ymddiriedolwyr, y Cyngor a Bwrdd yr Orsedd, ac mae'r hawl gan y Llys i sicrhau fod yr amcanion a'r ymrwymadau'n cael eu gweithredu'n briodol ac yn unol â dymuniad y Llys ac yn unol â'r Ddeddf. Mae'r Prif Weithredwr llawn amser yn rheoli gweithgareddau'r elusen gyda chymorth aelodau staff. Mae aelodaeth o'r Llys yn agored i bawb.

#### Y Cyngor

Swyddogaeth y Cyngor ydi gweithredu fel bwrdd goruchwyllo a chorff ymgynghorol sydd yn cymryd golwg strategol ar waith a datblygiad yr Eisteddfod. Mae'r Cyngor yn cynnwys 36 aelod ynghyd a'r Cymrodyr a Chyn-Lywyddion– caiff 24 o aelodau eu hethol gan y Llys, 6 gan yr Ymddiriedolwyr, a hawl gan y Cyngor i gyfethol hyd at 6 aelod. Rhaid i aelodau o'r Cyngor a'r Bwrdd Rheoli fod yn aelodau o Lys yr Eisteddfod Genedlaethol. Mae'r Cyngor yn cynnal o leiaf dri chyfarfod bob blwyddyn.

Mae gan y Cyngor ddau bwyllgor, sef

1. Pwyllgor Archwilio;
2. Pwyllgor Gweithredu'r Rheol Gymraeg – i arolygu ac adrodd ar weithredu'r Rheol Gymraeg ym mhob Gŵyl.

#### Bwrdd Rheoli/Ymddiriedolwyr

Y Bwrdd Rheoli sydd yn gyfrifol am arolygu holl waith a busnes yr elusen, gyda'r aelodau'n gweithredu fel ymddiriedolwyr. Disgwylir i Brif Weithredwr a phrif staff yr elusen fynychu cyfarfodydd y Bwrdd Rheoli, ond heb hawl pleidleisio gan nad ydynt yn ymddiriedolwyr. Mae'r Bwrdd yn cyfarfod o leiaf wyth gwaith yn ystod y flwyddyn.

Er mwyn cyflawni gwaith yr elusen sefydlwyd y Pwyllgorau a ganlyn:

**Pwyllgor Llywio/Pwyllgor Gwaith** ar gyfer pob Gŵyl.

**Pwyllgor Diwylliannol** – i gydlynu gwaith panelau sefydlog i gynnig cyngor arbenigol ar feysydd cystadleuol penodol ac i gymryd cyfrifoldeb am y rhestr gystadlaethau.

**Pwyllgor Technegol** – i gynnig cyngor arbenigol am y maes, adeiladau, trafndiaeth, a'r holl agweddau ar iechyd a diogelwch mewn perthynas â'r Wyl.

**Pwyllgor Marchnata** – i gynnig cyngor arbenigol ar weithgareddau hyrwyddo a marchnata'r Eisteddfod a'r Wyl.

**Pwyllgor Adnoddau Dynol** – i gynnig cyngor arbenigol ar faterion yn ymwneud â staffio a chyflogau.

### STRWYTHUR, LLYWODRAETHU A RHEOLI

---

**Pwyllgor Cynhwysedd ac Amrywiaeth** – i edrych ar holl weithdrefnau a gweithgareddau'r Eisteddfod i sicrhau eu bod yn agored a chynhwysol.

**Pwyllgor Artistig** - i gynnig cyngor arbenigol ar raglenni hwyr; a phrosiectau artistig mawr.

**Panel Enwebu** – i argymhell enwau Ymddiriedolwyr, aelodau'r Cyngor ac aelodau Pwyllgorau a phanelau sefydlog er mwyn cyflawni gofynion y Rheolau Sefydlog.

**Panel Cwynion, Disgyblu a Diswyddo** – i gwrdd yn ôl yr angen i ystyried unrhyw gŵyn ysgrifenedig a dderbynnir am Swyddogion yr elusen a chwynion am Ymddiriedolwyr yr elusen a'r staff.

#### Penodi Ymddiriedolwyr

Mae cymalau 12 ac 13 o'r Cyfansoddiad a'r Rheolau Sefydlog yn darparu ar gyfer penodi/ethol ymddiriedolwyr fel a ganlyn:

1. Penodir tri ymddiriedolwr yn rhinwedd eu swyddi, sef:  
Llywydd y Llys; Cadeirydd y Cyngor; Is-gadeirydd y Cyngor.
2. Dim llai na phedwar na mwy nag wyth ymddiriedolwr enwebedig wedi eu henwebu fel a ganlyn:
  - (i) Bwrdd yr Orsedd (1);
  - (ii) Pwyllgorau Gwaith y tair eisteddfod gyfredol (3);
  - (iii) Cyngor (4).
3. Dim llai na phedwar na mwy na chwe ymddiriedolwr etholedig i'w hethol gan y Llys gyda'r hawl i'r ymddiriedolwyr benodi i lenwi bylchau hyd y cyfarfod nesaf o'r Llys;
4. Dim mwy na dau ymddiriedolwr wedi eu cyfethol gan yr ymddiriedolwyr eraill.

Bwriedir sicrhau y bydd ystod eang o sgiliau a phrofiad o fewn y Bwrdd Ymddiriedolwyr gan gynnwys sgiliau a phrofiad diwylliannol, marchnata, technegol, busnes, ariannol, cyfreithiol a rheolaeth, ynghyd â phrofiad blaenorol o waith Eisteddfod Genedlaethol Cymru. Bydd yn ofynnol i bob Ymddiriedolwr allu cyfathrebu'n rhugl drwy'r Iaith Gymraeg;

Bwriedir hefyd geisio sicrhau cydbwysedd rhesymol ar draws yr holl Ymddiriedolwyr o safbwynt rhyw, oedran a chysylltiadau lleol;

#### Hyfforddiant ac anwytho Ymddiriedolwyr

Mae gan yr holl Ymddiriedolwyr presennol gysylltiad hir gyda'r Eisteddfod Genedlaethol. Maent yn cael cynnig derbyn gwybodaeth am eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau. Pe bai ymddiriedolwyr newydd yn cael eu penodi fe fyddai hynny'n golygu y byddant yn cael hyfforddiant ar weithdrefnau a pholisïau'r Eisteddfod. Byddai asesiad yn cael ei wneud o'r anghenion hyfforddi, gyda darpariaeth ar gyfer hyfforddiant pellach yn ystod y flwyddyn.

#### Datganiad o gyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr

Yr ymddiriedolwyr sy'n gyfrifol am baratoi Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr a'r datganiadau ariannol yn unol â'r gyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig (Arfer Cyfrifo a Dderbynnir yn Gyffredinol y Deyrnas Unedig).

Mae'r gyfraith sy'n berthnasol i elusennau yng Nghymru a Lloegr yn ei gwneud yn ofynnol i'r ymddiriedolwyr baratoi datganiadau ariannol ar gyfer pob blwyddyn ariannol sy'n rhoi golwg wir a theg o sefyllfa'r elusen ac o'r adnoddau sy'n dod i mewn a chymhwyso adnoddau'r elusen am y cyfnod hwnnw.

### STRWYTHUR, LLYWODRAETHU A RHEOLI

---

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol hyn, mae'n ofynnol i'r ymddiriedolwyr wneud y canlynol:

- dewis polisiâu cyfrifyddu addas ac yna eu cymhwyso'n gyson;
- arsylwi ar y dulliau a'r egwyddorion yn SORP yr Elusennau;
- llunio dyfarniadau ac amcangyfrifon sy'n rhesymol ac yn ddarbodus;
- nodi a ddilynwyd safonau cyfrifyddu cymwys, sy'n cynnwys FRS 102, yn amodol ar unrhyw ymadawiadau perthnasol a ddatgelwyd ac a eglurir yn y datganiadau ariannol; a
- paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol oni bai ei bod yn amhriodol tybio y bydd yr elusen yn parhau mewn busnes.

Mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu cywir sy'n datgelu sefyllfa ariannol yr elusen gyda chywirdeb rhesymol ar unrhyw adeg ac yn eu galluogi i sicrhau bod y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â Deddf Elusennau 2011, Rheoliadau Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008. Maent hefyd yn gyfrifol am ddiogelu asedau'r elusen ac felly am gymryd camau rhesymol i atal a chanfod twyll ac afreoleidd-dra eraill.

Mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am gynnal a chadw cyfanrwydd yr elusen a'r wybodaeth ariannol sydd wedi'i chynnwys ar wefan yr elusen. Gall deddfwriaeth yn y Deyrnas Unedig sy'n llywodraethu paratoi a lledaenu datganiadau ariannol fod yn wahanol i ddeddfwriaeth mewn awdurdodaethau eraill.

Cyn belled ag y mae'r Ymddiriedolwyr yn ymwybodol:

- nid oes gwybodaeth archwiliad perthnasol nad yw'n wybyddus i archwilwyr y cwmni elusennol;
- mae'r Ymddiriedolwyr wedi cymryd pob cam angenrheidiol i'w gwneud yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwiliad perthnasol ac i sefydlu bod yr archwilwyr yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

#### Prif Weithredwr ac Uwch Reolwyr

Mae'r Prif Weithredwr yn gyfrifol am reoli materion yr elusen o ddydd i ddydd ac am weithredu polisiâu y cytunwyd arnynt gan y Bwrdd Rheoli. Mae'r Prif Weithredwr yn cael ei gynorthwyo gan grŵp o uwch reolwyr sy'n ffurfio'r Tîm Rheoli.

Mae'r Tîm yma yn cynnwys:

Betsan Moses (Prif Weithredwr)

Elen Elis (Cyfarwyddwr Artistig)

Gwenllïan Carr (Cyfarwyddwr Strategol)

Peter Davies (Cyfarwyddwrh Cyllid)


#### Polisi cyflogi

Mae'r Eisteddfod yn gyflogwr cyfle cyfartal. Nid yw'n caniatáu gwahaniaethu ar sail rhyw, hil, lliw, anabledd, cefndir ethnig neu gefndir economaidd cymdeithasol, oedran, sefyllfa deuluol, statws priodasol, gweithwyr rhan neu llawn amser, crefydd, gwleidyddiaeth, tueddfryd rhywiol neu unrhyw wahaniaeth amherthnasol arall, ac mae'n ymroddedig i ystyried amrywiaethau mewn modd positif. Defnyddir egwyddorion cystadleuaeth deg ac agored ac mae penodiadau yn ddibynnol ar deilyngdod.

Cydnabyddiaeth

Mae pob ymddiriedolwr yn rhoi o'u hamser am ddim. Ni chafodd yr ymddiriedolwyr unrhyw dâl yn ystod y flwyddyn.

Ar ran yr ymddiriedolwyr

A handwritten signature in black ink that reads "G. T. Thomas". The signature is written in a cursive, flowing style.

Gethin Thomas  
Ymddiriedolwr  
Cadeirydd y Cyngor

### ADRODDIAD YR ARCHWILWYR ANNIBYNNOL I YMDDIRIEDOLWYR EISTEDDFOD GENEDLAETHOL CYMRU

---

#### Adroddiad ar y datganiadau ariannol

---

##### Barn

Archwiliwyd cyfrifon Eisteddfod Genedlaethol Cymru am y flwyddyn yn diweddu 31 Rhagfyr 2022; maent yn cynnwys y Datganiad o Symudiadau Ariannol, y Fantolen a'r nodiadau perthnasol. Paratowyd y cyfrifon yn unol â'r polisiau cyfrifo a nodir yn y cyfrifon. Cynhaliwyd ein harchwiliad yn unol â Safonau Cyfrifo'r Deyrnas Unedig (Ymarfer Cyfrifyddu Derbyniol Cyffredinol y Deyrnas Unedig), sy'n cynnwys FRS 102 Y Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon.

Yn ein barn ni:

- Mae'r cyfrifon yn rhoi adlewyrchiad cywir a theg o gyflwr ariannol yr elusen ar 31 Rhagfyr 2022 a'r adnoddau a ddefnyddiwyd am y flwyddyn ariannol;
  - Mae'r cyfrifon wedi eu paratoi yn unol â'r gyfraith berthnasol o Safonau Cyfrifo'r Deyrnas Unedig (Ymarfer Cyfrifo Derbyniol Cyffredinol y Deyrnas Unedig), sy'n cynnwys FRS 102 Y Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon.
  - Mae'r cyfrifon wedi eu paratoi'n gywir yn unol â Deddf Elusennau 2011 a Rheoliad 8 o Reoliadau Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008.
- 

##### Sail y farn

Gwnaethom gynnal ein harchwiliad yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (DU) ("ISA's (UK)") a'r gyfraith berthnasol. Disgrifir ein cyfrifoldebau o dan ISAs (DU) ymhellach yn adran Cyfrifoldebau'r archwilwyr am archwilio'r datganiadau ariannol o'n hadroddiad. Fe wnaethom aros yn annibynnol o'r elusen yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, sy'n cynnwys Safon Foesegol yr FRC ac rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credwn fod y dystiolaeth archwilio a gawsom yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sylfaen i'n barn ni.

---

##### Casgliadau yn ymwneud â busnes gweithredol

Wrth archwilio'r cyfrifon, rydym o'r farn bod defnydd yr ymddiriedolwyr o sail busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith rydym wedi'i wneud, nid ydym wedi nodi unrhyw ansicrwydd perthnasol sy'n ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r elusen i barhau fel busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeng mis o leiaf o'r adeg yr awdurdodir y datganiadau ariannol i'w cyhoeddi.

Fodd bynnag, oherwydd na ellir rhagweld holl ddigwyddiadau neu amodau'r dyfodol, nid yw'r datganiad hwn yn warant o allu'r elusen i barhau fel busnes gweithredol.

Disgrifir ein cyfrifoldebau a chyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr mewn perthynas â busnes gweithredol yn adrannau perthnasol yr adroddiad hwn.

---

##### Gwybodaeth arall

Mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am y wybodaeth arall. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth a gynhwysir yn yr Adroddiad Blynyddol, ac eithrio'r datganiadau ariannol ac Adroddiad yr Archwilwyr Annibynnol.

Nid yw ein barn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac, ac eithrio i'r graddau a nodir fel arall yn ein hadroddiad, nid ydym yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd arno.

---

### ADRODDIAD YR ARCHWILWYR ANNIBYNNOL I YMDDIRIEDOLWYR EISTEDDFOD GENEDLAETHOL CYMRU (PARHAD)

---

Mewn cysylltiad â'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol, ein cyfrifoldeb ni yw darllen y wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn anghyson yn sylweddol â'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth a gafwyd yn ystod yr archwiliad neu fel arall yn ymddangos eu bod wedi'i camddatgan yn sylweddol. Os byddwn yn nodi anghysondebau sylweddol o'r fath neu gamddatganiadau ymddangosiadol sylweddol, mae'n ofynnol i ni benderfynu a yw hyn yn arwain at gamddatganiad yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os byddwn, yn seiliedig ar y gwaith yr ydym wedi'i wneud, yn dod i'r casgliad bod camddatganiad o'r wybodaeth arall hon, mae'n ofynnol i ni adrodd y ffaith honno. Nid oes gennym ddim i'w adrodd yn hyn o beth.

#### **Materion yr ydym yn rwymedig i adrodd drwy eithriad**

Nid oes gennym ddim i'w adrodd mewn perthynas â'r eitemau canlynol lle mae'r Ddeddf Elusennau 2011 yn gofyn i ni adrodd i chi os, yn ein barn ni:

- mae'r wybodaeth a roddir yn Adroddiad yr Ymddiriedolwyr yn anghyson mewn unrhyw berthynas materol â'r datganiadau cyllid; neu
- bod yr elusen heb gadw cofnodion cyfrifo derbynniol; neu
- bod y datganiadau cyllid ddim yn cyd fynd â'r cofnodion cyfrifo a ffurflenni statudol;neu
- nad ydym wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau anghenrheidiol i gyflawni ein archwiliad.

#### **Cyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr**

Fel yr esboniwyd yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau Ymddiriedolwyr, mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am fod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun cywir a theg, ac am unrhyw reolaeth fewnol y mae'r ymddiriedolwyr yn penderfynu sy'n angenrheidiol er mwyn gallu paratoi datganiadau ariannol sy'n rhydd o gamddatganiad sylweddol, boed hynny oherwydd twyll neu wall.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am asesu gallu'r elusen i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu, fel y bo'n berthnasol, unrhyw fater ynghylch defnyddio sail busnes gweithredol cyfrifyddu oni bai bod yr ymddiriedolwyr naill ai'n bwriadu diddymu'r elusen neu roi'r gorau i weithrediadau, neu nad oes ganddynt ddewis amgen realistig ond gwneud hynny.

#### **Cyfrifoldebau'r archwilwyr am archwilio'r datganiadau ariannol**

Rydym wedi'n penodi'n archwilwyr o dan Adran 144 o Ddeddf Elusennau 2011 ac yn adrodd yn unol â'r Ddeddf a'r rheoliadau perthnasol a wnaed neu sy'n cael effaith o dan y Ddeddf honno.

Ein hamcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn ei cyfanrwydd yn rhydd o gamddatganiad perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad, ac i gyhoeddi Adroddiad gan yr Archwilwyr Annibynnol sy'n cynnwys ein barn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n warrant y bydd archwiliad a gynhelir yn unol ag ISAs (DU) bob amser yn canfod camddatganiad perthnasol pan fydd yn bodoli. Gall camddatganiadau godi o dwyll neu gamgymeriad ac fe'u hystyrir yn berthnasol os gellid disgwyl yn rhesymol iddynt, yn unigol neu ar y cyfan, ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Achosion o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau yw afreoleidd-dra. Amcanion ein harchwiliad yw cael digon o dystiolaeth archwilio priodol ynghylch cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau sy'n cael effaith uniongyrchol ar benderfynu ar symiau a datgeliadau sylweddol yn y datganiadau ariannol, cyflawni gweithdrefnau archwilio er mwyn helpu nodi achosion o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau eraill a allai gael effaith sylweddol ar y datganiadau ariannol, ac i ymateb yn briodol i ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau a nodwyd yn ystod yr archwiliad.

---

### ADRODDIAD YR ARCHWILWYR ANNIBYNNOL I YMDDIRIEDOLWYR EISTEDDFOD GENEDLAETHOL CYMRU (PARHAD)

---

O ran twyll, amcanion ein harchwiliad yw nodi ac asesu'r risg o gamddatganiad sylweddol o'r datganiadau ariannol oherwydd twyll, casglu digon o dystiolaeth archwilio priodol ynghylch y risgiau aseswyd o gamddatganiad sylweddol trwy dwyll gan ddylunio a gweithredu ymatebion priodol ac ymateb yn briodol i dwyll neu dwyll tybiedig a nodwyd yn ystod yr archwiliad.

Fodd bynnag, prif gyfrifoldeb y rheolwyr, gyda goruchwyliaeth y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, yw sicrhau bod gweithrediadau'r endid yn cael eu cynnal yn unol â darpariaethau cyfreithiau a rheoliadau ac ar gyfer atal a chanfod twyll.

Wrth asesu a nodi'r risgiau o gamddatganiad sylweddol mewn perthynas ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, fe wnaeth y tîm archwilio:

- gael dealltwriaeth o natur y diwydiant a'r sector, gan gynnwys y fframwaith cyfreithiol a rheoleiddiol y mae'r elusen yn gweithredu ynddo a sut mae'n cydymffurfio â'r fframwaith cyfreithiol a rheoleiddiol;
- holi'r rheolwyr, a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, am eu hasesiad a chydabyddiaeth eu hunain o beryglon afreoleidd-dra, gan gynnwys unrhyw achosion gwirioneddol, tybiedig neu honedig o dwyll;
- drafod materion ynghylch peidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau a sut y gallai twyll ddigwydd gan gynnwys asesu sut a ble y gallai'r datganiadau ariannol fod yn agored i dwyll.

O ganlyniad i'r gweithdrefnau hyn, rydym yn ystyried y cyfreithiau a'r rheoliadau mwyaf arwyddocaol sy'n cael effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol yw SoRP Elusennau, FRS 102 a Deddf Elusennau 2011. Gwnaethom gynnal gweithdrefnau archwilio i ganfod diffyg cydymffurfio a allai gael effaith sylweddol ar y datganiadau ariannol a oedd yn cynnwys adolygu'r datgeliadau yn y cyfrifon.

Nododd y tîm archwilio mai'r risg mwyaf i gamddatganiad sylweddol trwy dwyll fyddai o ganlyniad i'r rheolwyr yn diystyru rheolaethau mewnol. Roedd y gweithdrefnau archwilio a berfformiwyd yn cynnwys ond nid oeddent wedi'u cyfyngu i brofi cyfnodolion ac addasiadau eraill a gwerthuso'r rhesymeg fusnes mewn perthynas ag unrhyw drafodion sylweddol, anarferol a wnaed y tu allan i gwrs busnes arferol.

Ceir disgrifiad pellach o'n cyfrifoldebau dros archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn [www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities](http://www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities). Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'n hadroddiad archwilwyr annibynnol.

#### **Defnyddio'r adroddiad hwn**

